

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR Y.C. A GYNHALIWDYD AR NOS LUN 25AIN O ORFFENNAF 2016 YN YSGOL PANT PASTYNOG, PRION AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Barri Evans (Cadeirydd), Philip Williams, Hywel Davies, Iwan Jones, Stan Williams, Cyngorydd Sir Ddinbych Joe Welch a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Gwennan Hughes, Iona Edwards-Jones, Jill Evans, Falmai Evans ac Elfed Williams.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 27ain o Fehefin 2016 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Dosbarthwyd y Clerc gopi Cymraeg o'r "Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiau) (Cymru) 2016" i'r aelodau trwy law Un Llais Cymru gan nad oedd Cyngor Sir Ddinbych gan fersiwn Cymraeg. Cytunodd y Cyngorydd Sir Ddinbych, Joe Welch, ymholiadau pam nad oedd gan y Cyngor Sir fersiwn Cymraeg ar gael.

B. Derbyniwyd adroddiad Cyngorydd Iona Edwards-Jones trwy'r Cadeirydd ei fod wedi cyfarfod gyda Mr Trevor Carr, Swyddog Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych, yn cadarnhau mi fydd yr Adran Priffyrdd yn datrys problem dwr ar y ffordd wrth Y Fron, Prion.

4. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £8,805.00.

B. Taliad i'r Cyngor Sir Ddinbych am gyfarfod blaenorol y Cyngor - £15.00.

5. MATERION CYNLLUNIO.

A. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu cais cynllunio am godi estyniad ac addasiadau i'r annedd yn Brŷn Eglur, Llanrhaeadr.

B. Ceisiadau cynllunio i'w thrafod:-

1. Diwygio Di-Faterion i Anod 6 a chaniatâd a roddwyd ar apêl, i adolygu uchafswm uchder hwb o 65m i 69m, a gyflwynwyd mewn perthynas â chais rhif cod 25/2015/0636 yn Fferm Wynt Brenig, tir i'r dwyrain o Lŷn Brenig, Nantglyn. Penderfynwyd ar y sylwad dyle'r penderfyniad "Yr Arolygydd Cynllunio" ar y cais sefyll.

2. Diwygio i amodau swm 35 a 36 i gywiro cyfeiriad i ymwneud ac eiddo ariannol (Rhif 35): i ail eirio 36A, ac i ddileu Rhif 361 sy'n cyfeirio at fath a dull gweithrediad tyrbinau a gyflwynwyd mewn perthynas â chais rhif cod 25/2015/0636 (diwygio heb fod yn berthnasol) yn Fferm Wynt Brenig, tir i'r dwyrain o Lyn Brenig, Nantglyn. Penderfynwyd ar y sylwad dyli'r penderfyniad "Yr Arolygydd Cynllunio" ar y cais sefyll.

3. Codi sied amaethyddol i dal da byw yn Fferm Foel, Peniel. Penderfynwyd ar y sylwad bod y lliw'r adeilad yn dyniad llygad ar y tir uchel o'r lleoliad.

4. Codi estyniad unllaw'r i ochr a chefn yr annedd yn Hafan, 4 Maes-y-Groes, Prion. Dim gwrthwynebiad i'r cais.

6. GOHEBIAETH.

A. Dosbarthwyd y Clerc gopi o "Reolau Ariannol Enghreifftiol (Cymru" i'r aelodau.

B. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

7. UNRHYW FATER ARALL.

Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Cyngor Sir Ddinbych at y canlynol:-

A: Casgliad o faw ar y ffordd rhwng Pen Coed a Rhiwlas Isa' yn Saron.

B. Tyllau yn y ffordd rhwng Fferm y Coleg a Pen-y-Gerddi yn Saron.

C. Teiars wedi ei tipi oar y ffordd rhwng Stad Maes-y-Felin a'r mynediad gefn Bryn Morfydd yn Llanrhaeadr.

8. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 26ain o Fedi 2016 yn Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr am 7.30 o'r gloch.